

Fy Nghyf: REC22/**STUDID**  
Eich Cyf:

19th Ebrill 2022

At Riant/Rieni/ Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid:  
**ENW**  
**CYFEIRIAD**



Annwyl Riant/Rieni/Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid

### **Derbyn i Ysgol Gynradd: Medi 2022**

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais i ysgol Gymunedol. Mae'n flin gennyf ddweud nad wyf yn gallu cynnig lle i'ch plentyn yn yr ysgol ganlynol/ysgolion canlynol:

[schools]  
[schools]  
[schools]

#### Pam na chafodd fy mhentyn le yn fy ysgol(ion) o ddewis?

Cawsom fwy o geisiadau na'r lleoedd oedd ar gael yn yr ysgol/ysgolion, ac nid oedd eich plentyn yn gymwys i gael lle o dan feini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig y Cyngor yn y cylch dyrannu cychwynnol. Mae crynodeb o'r dull dyrannu lleoedd ar gael ar wefan y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd))

#### Beth sy'n digwydd nawr?

1. Mae eich plentyn wedi ei roi ar restr aros yr ysgol(ion). Os bydd eich plentyn yn gymwys am le yn eich ysgol(ion) o ddewis yn hwyrach, bydd y tîm Derbyn i Ysgolion yn cysylltu â chi. Sylwer bod lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y meini prawf cyhoeddedig, nid ar hyd y cyfnod mae'ch plentyn wedi bod yn aros am le.

Gall safle eich plentyn ar y rhestr aros newid wrth i leoedd gael eu dyrannu neu wrth i geisiadau gael eu derbyn a'u rhoi'n uwch ar y rhestr aros ar sail y meini prawf cyhoeddedig.

Bydd eich plentyn yn parhau ar y rhestr aros tan 30 Medi 2022 oni ddywedwch wrth y Cyngor nad ydych bellach am fod ar y rhestr. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd enw'ch plentyn yn cael eu symud oddi ar y rhestr a bydd angen i chi wneud cais 'o fewn blwyddyn' newydd i barhau ar y rhestr.

2. Dylech chi hefyd wneud cais am leoedd mewn ysgolion amgen. Ni fydd ymgeisio felly yn effeithio ar eich lle ar restr aros eich ysgol o ddewis ac ni fydd yn effeithio ar eich hawl i apelio. Mae lleoedd ar gael ar hyn o bryd yn yr ysgolion ar y rhestr amgaeedig

Gallwch hefyd wneud cais yn uniongyrchol i unrhyw ysgol Gatholig, ysgol Eglwys yng Nghymru neu ysgol sefydledig.

Mae ffurflenni cais i'w derbyn i ysgolion cymunedol ar gael trwy holl Hybiau Cyngor y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk/hybiau](http://www.caerdydd.gov.uk/hybiau)) neu o wefan y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd)) Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried yn y cylch nesaf, rhaid derbyn eich ffurflen erbyn 4 Mai 2022.

#### A allaf apelio yn erbyn y penderfyniad?

Rydych yn gallu apelio am le yn eich ysgol ddewisol. I gychwyn apêl, rhaid i chi gwblhau ffurflen apelio, sydd ar gael o wefan y cyngor [www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol](http://www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol). Rhaid dychwelyd y ffurflen i *Clerc y Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Annibynnol* yn y cyfeiriad a roddir ar y ffurflen erbyn **18th Mai 2022** fan bellaf.

Mae'n bosibl y collwch eich hawl i apelio os derbynir hi wedi'r dyddiad hwn. Efallai y gwnaiff y Panel ystyried clywed eich apêl os cafodd ei chyflwyno'n hwyr oherwydd amgylchiadau anodd neu am nad oeddech yn deall yr hyn yr oedd angen ei wneud. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd i ystyried eich apêl os na chyflwynwch hi erbyn y dyddiad cyhoeddedig.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio ar wefan y Cyngor [www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol](http://www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol)

### Sut gallaf ddysgu mwy?

Cydnabyddir bod hwn yn gyfnod anodd o rieni a phlant sydd heb gael lle mewn ysgol ar gyfer Medi 2022.

Mae Llyfryn Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer Rhieni yn rhoi manylion pob ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd ac mae'n esbonio polisi'r Cyngor o ran derbyn i ysgolion. Mae ar gael ar wefan y Cyngor, ar [www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion drwy C2C ar 02920 872088, neu e-bostio [derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk](mailto:derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk)

Yn gywir,

**Tîm Derbyn i Ysgolion**  
**Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Dinas Caerdydd**